

CYPE(5)-02-20 - Papur i'w nodi 1

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Ionawr 2020

Annwyl Lynne,

Iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc yng Nghymru – y camau nesaf ar gyfer *Cadernid Meddwl*

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr a oedd yn amlinellu eich ymateb ar ôl ystyried ein gohebiaeth flaenorol, ynghyd â'r camau nesaf yr ydych yn bwriadu eu cymryd fel rhan o weithgarwch y Pwyllgor Addysg, Plant a Phobl Ifanc yn y maes hwn yn ystod 2020. Rydym yn croesawu'n arbennig gyfraniad pobl ifanc y Senedd leuenctid a'n grŵp Rhanddeiliaid Ifanc, sy'n cefnogi'r Dull Ysgol Gyfan a'r rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd – Plant a Phobl Ifanc.

Er yn cydnabod y cynnydd a wnaed, yn enwedig ym maes y Dull Ysgol Gyfan lle'r ydym wedi canolbwyntio ein hadnoddau hyd yn hyn, rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn parhau â'i bwylais ar sicrhau gwella parhaus yn erbyn yr amrywiaeth eang o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad *Cadernid Meddwl*. Mewn ymateb i'ch cais i gael gwybodaeth cyn cynnal eich digwyddiad i randdeiliaid fis Chwefror, byddwn yn rhoi datganiad i'r Pwyllgor ynglŷn â'r diweddaraf o ran hynt y gwaith o weithredu argymhellion *Cadernid Meddwl*, a fydd yn dangos y gweithgarwch a fu ers y diweddariad blaenorol.

Byddwn hefyd yn darparu ymateb pellach yn y flwyddyn newydd, a fydd yn rhoi atebion i'r ymholiadau penodol eraill a wneir yn eich llythyr, gan gynnwys am gwmpas ffurfiol Canlyniadau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Blant, yn ogystal â manylion pellach am gynllun gwaith y grŵp hwnnw. Byddwn yn rhoi manylion i gynnig sicrwydd y bydd gwaith y Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan yn cwmpasu newid y system gyfan fel y cytunwyd. Bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn dangos sut yr ydym yn bwriadu rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â darnio, a hyrwyddo cynnydd ar draws y sector drwy ddarparu argymhellion. Bydd manylion y trefniadau hyn hefyd yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan, a gynhelir ar 27 Ionawr 2020.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Kirsty Williams AC/AM

Y Gweinidog Addysg
Minister for Education